Treialon Cymru

Trials Cymru



# Oes gennych chi ddiddordeb mewn treialon ymchwil yng Nghymru?

Mae Treialon Cymru yn fenter gyffrous a ariennir gan y Ganolfan Treialon Ymchwil sy'n cynnig cyfleoedd ledled Cymru i bobl gymryd rhan mewn treialon. Mae'n gysylltiedig â'r tair uned treialon yng Nghymru (Canolfan Treialon Ymchwil, Prifysgol Caerdydd; Uned Dreialon Abertawe, Prifysgol Abertawe; Cymdeithas Hap-Dreialon Iechyd Gogledd Cymru, Prifysgol Bangor) ar draws seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a thu hwnt.

## 1 Rhaglen Datblygu Ymchwil

**Nod:** Cynyddu nifer yr astudiaethau ar raddfa fawr sy'n cael eu harwain o Gymru mewn meysydd sy'n flaenoriaeth uchel i'n gwasanaethau.

*Oes gennych chi syniadau ar gyfer blaenoriaethau ymchwil yng Nghymru?*

*Oes gennych chi ddiddordeb mewn arwain hap-dreialon rheoledig yng Nghymru?*

**Dywedwch wrthym drwy sganio'r cod QR**

## 2 Rhaglen Aelodau Cyswllt

**Nod:** Cynorthwyo pobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i feithrin cysylltiad ag Uned Treialon Clinigol i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r uned a'r hyn mae'n ei wneud.

*A fyddai treulio amser yn dysgu am redeg treialon ac astudiaethau o ddydd i ddydd yn y Ganolfan a/neu mewn Unedau Treialon Clinigol eraill yng Nghymru yn help i chi yn eich gwaith?* Mae'r Rhaglen Aelodau Cyswllt ar agor ac yn derbyn ceisiadau.

**Sganiwch y cod QR**

## 3 Rhaglen Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

**Y Nodau:** 1) Gwrando, deall ac ymateb i anghenion cydweithredwyr y treialon presennol ac yn y dyfodol ledled Cymru i sicrhau bod y gwaith yn diwallu anghenion pawb; 2) Codi ymwybyddiaeth o dreialon, unedau treialon, a mentrau Treialon Cymru ledled Cymru.

**Gallwch weld pa ddigwyddiadau sydd ar y gweill drwy sganio'r cod QR**

Dilynwch ni ar Twitter X

**@TreialonCymru**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Health and Care Research Wales